# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 21/10/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### Y Berthynas rhwng Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned

**C9 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y berthynas rhwng cynghorau sir a chynghorau cymuned? OAQ(3)0928(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Brian Gibbons):** Mae perthynas iach ac effeithiol rhwng cynghorau cymuned a chynghorau sir yn hanfodol i ddemocratiaeth leol a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Yr ydym wedi annog hyn yn y ddogfen bolisi a'r canllawiau 'Cymuned ar y Cyd' a gyhoeddwyd gennym yn 2008. Yr wyf yn falch bod yr ymdrechion i wella perthnasau yn parhau yng Nghymru.

### Blaenoriaethau Cyllideb

**C10 David Melding:** Beth yw blaenoriaethau cyllideb y Gweinidog yn ei bortffolio? OAQ(3)0950(SJL)

**Brian Gibbons:** Fy mlaenoriaethau yw: cyflawni'r ymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' yr wyf yn gyfrifol amdanynt; diogelu a chynnal gwasanaethau rheng flaen ar gyfer dinasyddion Cymru, yn enwedig y rhai bregus; a chyflawni dyletswyddau cydraddoldeb penodol Gymreig, mewn cyfnod anodd iawn. Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos fy ymrwymiad i gyflawni'r ddau beth.

### Gwasanaethau 'Golau Glas'

**C11 Lorraine Barrett:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i helpu i hybu mwy o gydweithio rhwng y gwasanaethau 'golau glas' yng Nghymru? OAQ(3)0975(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae'r cyd-grŵp gwasanaethau brys yn cynrychioli'r gwasanaethau brys a gwasanaethau perthnasol yng Nghymru a'i nod yw hyrwyddo cydweithredu a chydweithio. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gysylltiedig â gwaith y grŵp. Mewn perthynas â'r gwasanaeth tân ac achub sydd wedi'i ddatganoli, mae ein fframwaith cenedlaethol yn ymrwymo'r gwasanaeth i gydweithio er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus.

### Strategaeth Cynhwysiant Ariannol

**C12 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)0926(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae ein strategaeth cynhwysiant ariannol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf yn tynnu sylw at ystod o fentrau, gan gynnwys £2.25 miliwn i gefnogi undebau credyd a

swyddfeydd post; £3.5 miliwn i hyrwyddo budd-daliadau'r dreth gyngor, tai ac anabledd er mwyn cynyddu'r nifer sy'n eu hawlio; y cynllun adfeddiannu morgais sy'n werth £9.5 miliwn; a £2.5 miliwn ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru a'r cynllun cynghori ar ddyledion tai sy'n werth £70,000.

### Cam-drin Domestig

**C13 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gam-drin domestig yng Nghymru? OAQ(3)0932(SJL)

**Brian Gibbons:** Yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Hydref soniais am sut y byddai'r Llywodraeth hon yn mynd i'r afael â cham-drin domestig yng Nghymru. Yn ogystal, ar 6 Hydref cyhoeddais ddatganiad i'r wasg i gyhoeddi £1 filiwn o refeniw ychwanegol er mwyn cefnogi'r agenda hon.

### Craffu Llywodraeth Leol

**C14 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am graffu llywodraeth leol? OAQ(3)0977(SJL)

**Brian Gibbons:** Mae pwyllgorau craffu a throsolwg yn rhan hanfodol o lywodraeth leol o ran monitro'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn eu hardal. Disgwylir i'r Mesur Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd Ac Adeiladu gwblhau'i daith drwy'r Senedd yn ystod y mis hwn a bydd yn trosglwyddo pwerau Mesur ar gyfer craffu i'r Cynulliad.

### Cyngor Sir Caerfyrddin

**C15 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch perfformiad Cyngor Sir Caerfyrddin? OAQ(3)0971(SJL)

**Brian Gibbons:** Cyngor Sir Caerfyrddin oedd yr awdurdod lleol cyntaf i dderbyn y grant cytundeb gwella gwerth £1.943 miliwn eleni. Fe wnaeth fodloni pob un o'r wyth canlyniad a bennwyd gan ddarparu tystiolaeth ategol fanwl. Mae ffigurau a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan uned ddata llywodraeth leol Cymru yn dangos bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwella'i berfformiad mewn nifer o feysydd allweddol ac yn enwedig ailgylchu, addysg ac oedi wrth drosglwyddo gofal.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Dreftadaeth

### Hyrwyddo Diwylliant yng Ngorllewin Cymru

**C8 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo diwylliant Cymru yng ngorllewin Cymru? OAQ(3)0933(HER)

**Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Mae pwysigrwydd diwylliant cyfoethog ac amrywiol yn ganolog i amcanion fy mhortffolio i. Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau profiadau diwylliannol o safon uchel ar draws gorllewin Cymru drwy gyflawni strategaeth twristiaeth ddiwylliannol Llywodraeth y Cynulliad, hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau artistig a gweithgareddau diwylliannol ehangach, a chefnogi'r amgylchedd hanesyddol ar draws y rhanbarth.

### Yr Amgylchedd Hanesyddol

**C9 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol? OAQ(3)0909(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae fy natganiad ar strategaeth yr amgylchedd hanesyddol o 22 Medi yn cynnwys ystod o gamau gweithredu ar gyfer diogelu amgylchedd hanesyddol nodweddiadol a chyfoethog Cymru.

### Safleoedd Cadw

**C10 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflwyno mynediad am ddim i bensiynwyr ac i blant yn safleoedd Cadw yng Nghymru? OAQ(3)0929(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gynnig mynediad am ddim i'w henebion ar gyfer y trigolion hynny o Gymru sydd dros 60 oed ac o dan 16 oed sydd wedi gwneud cais am gerdyn mynediad am ddim. Hyd yn hyn, mae mwy na 15,300 o bobl wedi gwneud cais am gerdyn.

### Henebion

**C11 Sandy Mewies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i warchod henebion yn sir y Fflint? OAQ(3)0924(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae 131 o henebion yn sir y Fflint wedi'u diogelu oherwydd fe'u rhestrwyd fel henebion sydd o bwys cenedlaethol. Dros y 12 mis diwethaf, mae fy swyddogion yn Cadw wedi cynnig grantiau henebion gwerth tua £90,000 er mwyn sicrhau cadwraeth henebion yn y sir.

### Twristiaeth

**C12 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dwristiaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0918(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae'r digwyddiadau proffil uchel o'r byd adloniant a chwaraeon yr ydym wedi'u denu i'r ardal yn parhau i ddod â manteision economaidd i Gaerdydd a'r Fro. Mae Rhondda Cynon Taf yn dod o dan ardal adfywio strategol Blaenau'r Cymoedd a fydd yn derbyn £45 miliwn mewn buddsoddiad twristiaeth ar gyfer 2006-12.

### Adroddiad 'Prydain Ddigidol'

**C13 Nerys Evans:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn ag adroddiad 'Prydain Ddigidol'? OAQ(3)0936(HER) W

**Alun Ffred Jones:** Mae adroddiad 'Prydain Ddigidol' yn cwmpasu ystod eang o faterion ar draws sawl portffolio gweinidogol. Mae Gweinidogion a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd a chyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Celfyddydau a Chwaraeon i gyflawni'r pwyntiau gweithredu a sicrhau bod materion Cymreig yn cael sylw.

### Y Fenter Nofio am Ddim Genedlaethol

**C14 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y fenter nofio am ddim genedlaethol? OAQ(3)0895(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflawni ymrwymiad 'Cymru'n Un' o ariannu cynlluniau sy'n galluogi pobl hŷn a phlant i fwynhau nofio am ddim. Mae

cynigion ar y gweill i ymestyn cynllun y plant i gynnwys penwythnosau.

### Adeiladau Hanesyddol

**C15 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adeiladau hanesyddol yng Nghymru? OAQ(3)0928(HER)

**Alun Ffred Jones:** Mae fy swyddogion yn Cadw yn cynnig grantiau ar gyfer atgyweirio ac adfer adeiladau hanesyddol a chefnogaeth ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw ar raddfa fach ar safleoedd addoli a restrwyd. Mae adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig grantiau a allai fod yn fanteisiol i adeiladau hanesyddol, megis grantiau ar gyfer busnesau newydd, prosiectau cymunedol neu gynlluniau adfywio.